GWEDDÏAU

Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân. **Amen**

Credaf yn Nuw Dad Hollgyfoethog,
creawdwr nef a daear:

Ac yn Iesu Crist ei unig Fab ef, ein Harglwydd ni,
yr hwn a gaed trwy'r Ysbryd Glân,
a aned o Fair Forwyn, a ddioddefodd dan Pontius Pilat,
a groeshoeliwyd a fu farw, ac a gladdwyd.
Disgynnodd i uffern.
Y trydydd dydd y cyfododd o feirw,
a esgynnodd i'r nefoedd,
ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw Duw
Dad Hollgyfoethog;
oddi yno y daw i farnu'r byw a'r meirw.

Credaf yn yr Ysbryd Glân;
yr Eglwys Lân Gatholig;
cymun y saint;
maddeuant pechodau;
atgyfodiad y corff;
a'r bywyd tragwyddol. Amen.

Hollalluog Dduw a adeiledaist dy Eglwys ar sail yr Apostolion a'r Proffwydi, ac Iesu Grist ei hun yn ben conglfaen: Caniatâ i ni fod wedi ein cysylltu ynghyd mewn undeb ysbryd gan eu dysgeidiaeth hwy, fel y gwneir ni'n deml sanctaidd gymeradwy gennyt; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Hollgyfoethog Dduw, atolygwn arnat arwain â llewyrch dy Lân Ysbryd Archesgob, Esgobion, Clerigion a Lleygwyr Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, fel y byddo doeth eu hymgyngor er lles dy Eglwys a gogoniant dy Enw; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

(Ar Ŵyl gellir ychwanegu'r Colect am y Dydd.)

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
gwneler dy ewyllys,
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

PRAYERS

In the name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit. **Amen**

I believe in God the Father Almighty,
maker of heaven and earth:

And in Jesus Christ his only Son our Lord,
who was conceived by the Holy Spirit,
born of the Virgin Mary
suffered under Pontius Pilate,
was crucified, dead and buried.
He descended into hell.
The third day he rose again from the dead,
he ascended into heaven,
and is seated at the right hand of God
the Father Almighty;
from thence he shall come
to judge both the quick and the dead.

I believe in the Holy Spirit;
the Holy Catholic Church;
the communion of saints,
the forgiveness of sins;
the resurrection of the body;
and the life everlasting. Amen

O Almighty God, who hast built thy Church upon the foundation of the Apostles and Prophets, Jesus Christ himself being the head cornerstone: Grant us so to be joined together in unity of spirit by their doctrine, that we may be made an holy temple acceptable unto thee; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

Guide, we beseech thee, Almighty God, with the light of thy Holy Spirit, the Archbishop, Bishops, Clerics and Laity of the Governing Body of the Church in Wales, that they may wisely take counsel together for the good of thy Church and the glory of thy Name; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

(If the day be a Saint's Day the Collect for that day may be said here.)

Our Father, who art in heaven,
hallowed be thy name;
thy kingdom come;
thy will be done;
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses,
as we forgive those who trespass against us.
And lead us not into temptation;
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom,
the power, and the glory,
for ever and ever. Amen.